

Adroddiad monitro'r cynllun iaith Gymraeg 1 Ebrill 2020–31 Mawrth 2021

Ynglŷn â ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheolydd proffesiynol bron i 732,000 o weithwyr proffesiynol ym meysydd nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg a safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwreagedd ledled y DU,. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon ynghylch nyrsys, bydwreagedd a chymdeithion nyrsio - rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu yn ôl yr angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn ymgysylltu ac wedi'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Llywodraethu ein gwaith Cymraeg

Mae aelodau'r Cyngor, y tîm Gweithredol a'r holl gyflogeion yn chwarae rhan wrth gyflawni ein cynllun iaith Gymraeg. Nodir cyfrifoldebau allweddol isod:

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am osod a goruchwyllo ein strategaeth gyffredinol.
- Mae'r tîm Gweithredol yn gyfrifol am weithredu ein strategaeth ac am osod polisiau a chynlluniau busnes mewnol sy'n cefnogi cyflwyno'r cynllun iaith Gymraeg.
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r cynllun Cymraeg, tra mai ein Prif Weithredwr yw arweinydd gweithredol Cymru ar hyn o bryd.
- Mae'r tîm Polisi a Deddfwriaeth yn gyfrifol am fonitro newid deddfwriaethol a'r effaith ar ein cynllunio busnes mewn perthynas â chydymffurfio â Deddf Iaith Gymraeg 1993.
- Mae'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Cydraddoldeb (EDI) yn gyfrifol am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chefnogi ein cyflogeion i deimlo'n hyderus ac yn

gymwys i gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, rydym yn glir ynghylch yr angen i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled ag sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Cymeradwywyd ein cynllun iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cynnydd wrth weithredu ein cynllun iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, yn unol â gofyniad y Comisiynydd y Gymraeg. Mae adroddiad cryno (yn seiliedig ar gwestiynau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg) wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwmo i gydymffurfio'n gyson â'n cynllun iaith Gymraeg, ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus wrth i ni ddatblygu ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn, a bydd yn hygyrch i gwsmeriaid trwy drafodaeth gyhoeddus mewn sesiwn Cyngor yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar ein gwefan, yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Gweithgarwch Diweddar

Yn 2020 cymerodd ein Prif Weithredwr a'n Cofrestrydd Andrea Sutcliffe rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd cydweithwyr o'r sefydliad cyfan nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Cynnal byrddau crwn rhanddeiliaid gyda phartneriaid bydwreigiaeth, nyrsio a rheoleiddio yng Nghymru i archwilio effaith y pandemig ar nyrsio a bydwreigiaeth, ochr yn ochr ag archwilio themâu ehangach, megis EDI, a gweithgarwch NMC.
- Cynnal gweminar ar gyfer myfyrwyr mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Cyngor Deoniaid Iechyd a'r Brif Swyddfa Nyrsio i esbonio'r newidiadau i safonau brys yr NMC ym mis Ionawr 2021 a sut y cawsant eu gweithredu ledled y DU.
- Ymgysylltiad parhaus â rheoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau eraill yng Nghymru i sicrhau aliniad rheoleiddiol, mae hyn yn cynnwys mynychu a chyfrannu at uwchgynhadledd Gofal Iechyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Gweithio'n agos gyda Brif Swyddog Nyrsio blaenorol a dros dro a'u tîm, megis ar ein hymgyngoriad ar safonau ôl-gofrestru, ein hadolygiad o safonau ein rhaglenni addysg a chyflwyno ein safonau argyfwng ac adfer.

- Cynnal ymweliadau rhithwir â Chymru i ddysgu am brofiadau ein cofrestreion, megis ymweld â'r Tîm Iechyd Lloches ym Mae Abertawe.
- Cynnal digwyddiadau i gofrestreion yng Nghymru am ein rhaglenni gweithgareddau allweddol. Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau rhanddeiliaid yng Nghymru.
- Mae'r NMC wedi cynhyrchu animeiddiad ar ein safonau bydwreigiaeth yn seiliedig ar adborth gan rieni yng Nghymru i sicrhau bod y cyhoedd yn deall effaith y safonau ar ofal.

Mae Jacqui Williams, ein Huwch Gynghorydd Bydwreigiaeth wedi cyfarfod yn rheolaidd â'r Bydwreagedd Arweiniol dros Addysg yng Nghymru yn ogystal â chael sesiynau dal i fyny misol gyda Karen Jewell, Swyddog Nyrsio Mamolaeth a'r Blynnydoedd Cynnar, Swyddfa CNO Cymru. Mae Jacqui hefyd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau rhanddeiliaid Cymru wrth iddynt baratoi ar gyfer eu rhaglenni newydd.

Mae Kristian Garsed, ein Cynghorydd Rheoleiddio ar gyfer Cymru yn y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, wedi bod yn dysgu Cymraeg ers mis Mai 2020 fel ymrwymiad datblygiad proffesiynol i'r rôl. Mae Kristian hefyd wedi bod yn darparu:

- Diweddariadau ysgrifenedig pwrpasol rheolaidd i bob Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn y GIG yng Nghymru, gan eu hysbysu am newidiadau a datblygiadau allweddol o ran ymateb rheoleiddiol yr NMC i bandemig Covid 19.
- Diweddariadau / gweithdai rheoleiddio wyneb yn wyneb rhithwir i gyflogwyr yng Nghymru ar gais yn amlygu ac yn archwilio'r newidiadau i'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio ein proffesiynau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig.
- Cymorth arferol i holl gyflogwyr ein gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru ar draws iechyd a gofal a'r sector annibynnol, ar ffurf cyngor rheoleiddio ad hoc, gwybodaeth a chyfleoedd dysgu.
- A sefydlu a chynnal fforwm rheolaidd i'r NMC, GMC, GPhC a GDC yng Nghymru ac HIW i rannu gwybodaeth, deallusrwydd, ystyriaethau polisi a blaenoriaethau a rennir ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y pandemig.

Ym mis Mai 2020, bu ein Prif Swyddog Gweithredol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gydnabod nyrsys gofal cymdeithasol mewn [llythyr ar y cyd](#) ac ym mis Tachwedd 2020 fe wnaethom ymateb i [Adolygiad Cenedlaethol Gwasanaethau Mamolaeth](#) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Postiwyd y ddau ymateb ar wefan yr NMC a'u rhannu ar ein platfform cyfryngau cymdeithasol mewnol, Workplace.

Fe wnaethom lansio [hyb gwe EDI newydd](#) fis Hydref y llynedd ac fe wnaethom sicrhau

bod gennym dudalen bwrpasol, yn Gymraeg yn gyntaf ac yna Saesneg, ar gyfer ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Fe wnaethom hefyd barhau i ystyried y Gymraeg ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn ofalus fel rhan o'n hymateb parhaus i'r pandemig Covid-19, gan gynnwys parhau i weithio ar y cyd â Phrif Swyddog Nyrsio Cymru i sicrhau bod ein dull yn cyd-fynd â'u gweithgarwch parhaus. yn y maes hwn. Fe wnaethom sicrhau bod cyfathrebiadau am ein safonau rhaglenni addysg frys yn cael eu hanfon yn Saesneg a Chymraeg at addysgwyr yng Nghymru ac yn cael eu [cyhoeddi](#) yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr ar ein hyb gwe Covid-19 ar-lein. Roedd dogfennau allweddol eraill, megis ein canllaw ar ailddilysu yn ystod Covid-19, hefyd [ar gael](#) ar ein gwefan yn Gymraeg. Yn yr un modd â'n holl asesiadau effaith cydraddoldeb safonol mae gennym faes penodol i asesu effaith gweithgarwch ar siaradwyr Cymraeg. Er bod y gweithgarwch y tu allan i'r cyfnod adrodd, [cyhoeddwyd](#) ein hasesiad rheoleiddiol diweddaraf o effaith cydraddoldeb Covid-19 ym mis Gorffennaf 2021 a gellir gweld ein hasesiad iaith Gymraeg yn adran 5.

Safonau'r iaith Gymraeg

Rydym ni, gyda'r rheoleiddwyr proffesiynol eraill, wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei safonau iaith Gymraeg newydd ac wedi croesawu'r cyfle i [ymateb](#) i'w hymgyngoriad yn 2020. Mae'r gweithgaredd hwn wedi rhoi cyfle i ni adolygu ein cydymffurfriad â'n cynllun iaith Gymraeg bresennol a deall yn well sut rydym yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.

Yn ein [hymateb](#) i gynigion iaith Gymraeg 2016 fe wnaethom gadarnhau ein cefnogaeth i uchelgais Llywodraeth Cymru i feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Dywedon ni hefyd ein bod yn hapus i weithio i gyflawni'r nod hwn, a'n bod am i holl wasanaethau perthnasol yr NMC fod yn hygyrch i bob rhan o'r gymuned, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Dyma ein safbwynt o hyd ac mae'n cadarnhau ein gwerthoedd sefydliadol sylfaenol - ein bod yn deg, yn garedig ac yn gydweithredol.

Ar ôl ymgysylltu â rhannau perthnasol o'r NMC yn ychwanegol at ein rheolyddion partner, ein barn am y safonau arfaethedig oedd eu bod yn fwy na thebyg yn hylaw. Fodd bynnag, fel y dywedon ni yn wreiddiol yn ein hymateb yn 2016, rydym yn dal i gredu bod angen eglurder ynghylch cwmpas, maint a gweithredu'r safonau hyn. Heb yr eglurder hwn, bydd yn anodd i ni asesu effaith y safonau yn gywir a chynllunio ar gyfer cydymffurfio. Fe wnaethom nodi rhai o'r meysydd allweddol yn ein hymateb lle credwn fod angen mwy o eglurder. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad hwn.

Blaenoriaeth strategol

Yn ein Strategaeth 2020-2025, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, fe wnaethom yn glir bod 'angen cysylltiadau cryf ar draws pedair gwlad y DU a gwerthfawrogiad o'r cyddestunau gwleidyddol, darparu gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu amrywiol', ac fe wnaethom ymrwymo i 'adolygu a datblygu ein presenoldeb' yng Nghymru a rhannau

eraill o'r DU.

Bydd ein fframwaith newydd ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau cysylltiedig yn sail i'n hymagwedd tuag at gydymffurfio â'r Gymraeg, fel y nodir isod:

- **Teg** - byddwn yn sicrhau y bydd pobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau yn cael cyfleoedd teg i gyrchu gwybodaeth yn Gymraeg, ac yn gallu ymddiried yn ein hymrwymiad i'n cynllun Gymraeg.
- **Caredig** - rydym yn gwerthfawrogi pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn barchus wrth ddelio â cheisiadau yn y Gymraeg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Gymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn hyderus i ymgysylltu â ni yn y Gymraeg.
- **Cydweithredol** - byddwn yn buddsoddi yn ein perthnasoedd presennol, gan gynnwys gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn ymgysylltu â chymunedau Gymraeg ehangach, gan gydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.
- **Uchelgeisiol** - byddwn yn agored i ffyrdd newydd o fodloni ein gofynion iaith Gymraeg, a byddwn bob amser yn anelu at wneud ein gorau dros siaradwyr y Gymraeg.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar:

1. Nodi ein hymrwymiad a'n hymagwedd tuag at gydraddoldeb yr iaith Gymraeg yn ein fframwaith EDI wedi'i ddiweddarau erbyn diwedd 2021
2. Ehangu ein hymgysylltiad ag anghenion gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru, a'n dealltwriaeth ohonynt
3. Ymgorffori ymagwedd systematig at gydymffurfio ar gyfer yr iaith Gymraeg ar draws y sefydliad gan ddefnyddio ein prosesau llywodraethu sefydledig

Atodiad 1: Adroddiad cryno ar weithredu'r cynllun iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani	Ein gwaith
Asesiad effaith polisi	
<p>Nifer a chanran y polisïau (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi'n eu cael ar ddefnydd y Gymraeg.</p>	<p>Mae ystyriaethau'r iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori yn ein proses datblygu safonau addysg a hyfedredd. Mae gennym ddogfennau Cymraeg ar gael ar bob cam allweddol o'r ymgynghoriad, megis safonau drafft a chwestiynau ymgynghori, ac rydym yn cynnig yr opsiwn o ymateb i'n hymgynghoriadau yn Gymraeg.</p> <p>Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gymryd rhan lawn yn y digwyddiadau ymgysylltu allanol rydym yn eu cynnal yng Nghymru fel rhan o'r broses hon trwy ddarparu cyfieithu ar y pryd, dogfennaeth digwyddiadau, arwyddion ac ati. Yn anffodus fodd bynnag, oherwydd y pandemig Covid-19 nid oeddem yn gallu cynnal unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn unrhyw le yn y DU, gan gynnwys Cymru, yn ystod y cyfnod adrodd hwn.</p> <p>Mae adborth a thystiolaeth ar yr effaith ar siaradwyr Cymraeg hefyd yn cael eu cipio fel rhan o'n gwaith asesu effaith cydraddoldeb ar gyfer ein safonau. Mae asesiad llawn o effaith cydraddoldeb yn rhan hanfodol o'n holl brosiectau datblygu safonau ac fe'u cyhoeddir fel mater o drefn ar ddiwedd pob prosiect.</p> <p>Yn ystod y cyfnod adrodd dilynwyd y dull hwn yn ystod y gwaith parhaus ar yr adolygiad o'n safonau addysg a hyfedredd Ôl-gofrestru (digwyddodd lansiad ffurfiol yr ymgynghoriad ei hun yn fuan iawn ar ôl i'r cyfnod adrodd hwn ddod i ben).</p>
<p>Enghraifft o asesiad y bernir ei fod yn cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg a manylion am sut y cafodd y polisi ei ddiwygio o ganlyniad.</p>	<p>Nid ydym wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad effaith a arweiniodd at newid polisi arfaethedig neu bolisi presennol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.</p>
Cyhoeddiadau	
<p>Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd</p>	<p>Mae gennym 984 o gyhoeddiadau ar y wefan.</p>
<p>Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd</p>	<p>Mae 128 o ddogfennau ar y wefan yn Gymraeg gan gynnwys adroddiadau blynyddol, dogfennau safonau, dogfennau ailddilysu a</p>

<p>yn Gymraeg</p>	<p>dogfennau safonau addysg.</p> <p>Mae hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n dweud y bydd gwybodaeth sydd wedi'i hanelu at gleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn Saesneg a Chymraeg. Cyhoeddir safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall sydd wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol ac nid yn uniongyrchol at y cyhoedd yn Saesneg.</p> <p>Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais. Yn ogystal â gofynion ein cynllun rydym yn cyfieithu deunyddiau pan fyddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft ein deunyddiau ymgynghori a'n dogfennau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.</p>
<p>Cwynion</p>	
<p>Nifer yr holl gŵynion a dderbyniwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru</p>	<p>Fe gawsom 198 o atgyfeiriadau mewn perthynas â nyrs gofrestredig, bydwraig neu gydymaith nyrsio gyda chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021.</p>
<p>Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru</p>	<p>Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, fe gawsom gyfanswm o 5,547 o atgyfeiriadau newydd. Roedd 198 o'r rhain yn ymwneud ag ymarferwyr yr oedd eu cyfeiriad cartref cofrestredig yng Nghymru. Ar ôl gwirio ein cofnodion, ni chawsom unrhyw atgyfeiriadau newydd yn Gymraeg.</p>
<p>Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfiad y Cyngor â'i gynllun Cymraeg</p>	<p>Ni dderbyniodd y tîm Ymholiadau a Chwynion Cwsmer unrhyw gwynion corfforaethol mewn perthynas â chydymffurfiad yr NMC â'r cynllun Cymraeg yn y cyfnod adrodd 2020 - 2021.</p>
<p>Gwefan</p>	
<p>Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg</p>	<p>Llai nag un y cant.</p> <p>Mae gennym un brif dudalen gyflwyniad yn Gymraeg ar y wefan, y gellir ei chyrchu trwy fotwm 'Cymraeg' yn y bar llywio. Rydym yn diweddarau'r dudalen hon o bryd i'w gilydd. Yn y flwyddyn ariannol 2020/2021 cafodd y dudalen honno 3,139 o olygon.</p> <p>https://www.nmc.org.uk/about-us/our-role/ein-rol/</p>

	<p>Mae gennym hefyd un dudalen ar ein cynllun Cymraeg yma: https://www.nmc.org.uk/about-us/equality-diversity-and-inclusion/welsh-language-scheme/</p> <p>Rydym yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais.</p>
Tystiolaeth yn ymwneud ag unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ar y wefan	Rydym yn dechrau gweithio ar ailddatblygu ein gwefan. Bydd y rhaglen hon yn ystyried darpariaeth gwefan yn y Gymraeg gan gynnwys ffyrdd i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymchwil ddarganfod yn 2021 a fydd yn mynd ati i chwilio am farn ac anghenion siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn ystyried yr anghenion hyn wrth ddatblygu'r wefan newydd.
Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd, yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn 2018-19)	Pryd bynnag y cynhyrchir cyhoeddiad, cynhelir asesiad gan y tîm cyfathrebu Corfforaethol ynghylch a oes angen cynhyrchu fersiwn Gymraeg ar gyfer y cyhoeddiad penodol hwnnw hefyd.
Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg	
Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau.	<p>Mae tudalen ar ein gwefan sy'n ymroddedig i roi manylion ein cynllun iaith Gymraeg, gan gynnwys y gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Gweler hefyd y wybodaeth uchod am ein dogfennau a'n cyhoeddiadau iaith Gymraeg uchod.</p> <p>Nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau yn y ganolfan gyswllt i gyfieithu nac unrhyw gŵynion am beidio â chyfieithu eitemau.</p>
Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (ee trwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth)	Er nad ydym wedi cael unrhyw adborth gan gwsmeriaid yn sôn am yr iaith Gymraeg, rydym yn asesu profiad defnyddwyr presennol trwy wahoddiad i gymryd rhan yn ein harolygon adborth cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn graddio eu boddhad ac yn cael cyfle i adael sylwadau ychwanegol, megis adborth ar gyfathrebiadau iaith Gymraeg. Mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r ymatebion yn cael eu nodi mewn adolygiadau boddhad cwsmeriaid, sy'n sylfaen i wella profiad

presennol / darpar ddefnyddwyr)	<p>ein cwsmeriaid.</p> <p>Yn ogystal, rydym yn defnyddio'r adborth a gawn o ymatebion ymgynghori gan gyrff sy'n cynrychioli siaradwyr Cymraeg i ystyried ansawdd gwasanaethau ein sefydliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg.</p>
Achosion ffitrwydd i ymarfer	
Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru	Ni chynhaliwyd gwrandawiadau corfforol yng Nghymru am y cyfnod hwn.
Nifer y gwrandawiadau lle gwnaeth y tyst gais i siarad yn Gymraeg	<p>Ni fu unrhyw geisiadau gan dyst i siarad yn Gymraeg.</p> <p>Nid ydym wedi derbyn cais am gyfieithydd Cymraeg mewn gwrandawriad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.</p>
Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.	Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan bartïon gwrandawriad i siarad Cymraeg mewn gwrandawriad.
Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	
Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2019) a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.	<p>15</p> <p>3%</p>
Nifer a chanran holl weithlu'r sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant.	<p>25</p> <p>2%</p>
Hunan-reoleiddio	
Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n	Rydym wedi parhau i ddilyn amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y safonau iaith newydd. Ar hyn o bryd, mae hyn i'w benderfynu o hyd. Cyn i hyn ddigwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yr hoffai ymgysylltu â rheoleiddwyr ynghylch y pryderon a godwyd ganddynt yn eu cyflwyniad i'r ymgynghoriad yn 2020.

effeithiol.	
-------------	--